
# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Wali Wyth (8)** |
| Adnoddau: | • Numicons<br>• Tuff tray<br>• Tywod, jeli baff, dail (unrhyw adnodd i orchuddio'r numicons). |
| Camau: | Cam 1 - Rhowch amrywiaeth o numicons 1-8 yn y tuff tray. Gorchuddiwch y numicons yn y tuff tray. Gofynnwch i blentyn dynnu un darn o numicon allan.  Trafodwch y rhif a gofynnwch faint yn fwy sydd ei angen i wneud 8. Anogwch y plentyn i chwilio am y rhif arall sydd yn gwneud 8 - e.e. 5 a 3.<br><br>Cam 2 - Gosodwch y ddau ddarn o numicon ar ddarn o bapur ac ysgrifennu'r frawddeg rif.<br><br>Cam 3 - Ailadroddwch y camau uchod gan ddefnyddio darnau numicons gwahanol. |
| Cwestiynu: | • Faint yn fwy sydd ei angen i wneud 8?<br>• Mae gen i 4 numicon. Beth ydy dwbl 4?<br>• Beth ydy 1 yn fwy nag 8?<br>• Beth ydy 1 yn llai nag 8?<br>• Cyfrwch i fyny mewn camau o 2 hyd at 8. Pa rif sy’n dod ar ôl 8 os ydych chi’n cyfrif i fyny mewn camau o 2? |
| Beth nesaf? | **Tynnu i ffwrdd:**<br>5+3=8, felly 8-3=5<br>4+4=8, felly 8-4=4<br>Defnyddiwch y numicons i weld y patrymau uchod. |

